


# Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint

## Cyfrif Cerdyn Parod

### Beth ydi Cyfrif Cerdyn Parod y Taliad Uniongyrchol?



Mae'n debyg i unrhyw gyfrif cyfredol arall. Byddwch yn cael rhif cyfrif unigryw, cod didoli a cherdyn credyd.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn talu'ch taliad uniongyrchol i'r cyfrif hwn a gallwch ddefnyddio'r arian i gyflawni canlyniadau eich cynllun gofal a chymorth.

### Ar gyfer beth mae'r cyfrif?

- Trosglwyddiadau banc a thaliadau cyflymach – yr un diwrnod neu'r diwrnod gwaith nesaf
- Archebion sefydlog
- Debydau uniongyrchol
- Bancio dros y ffôn
- Bancio ar-lein

### Beth nad oes modd ei wneud?

- Ysgrifennu sieciau
- Codi arian
- Mynd i mewn i gangen

### Pam eich bod chi'n derbyn cerdyn?

- Bydd rhif y cyfrif a'r cod didoli ar flaen y cerdyn a bydd arnoch chi angen y rheiny i lenwi ffurflenni debyd uniongyrchol ar gyfer yr adain gyflogau neu i drefnu archebion sefydlog neu drosglwyddiadau banc i'r cyfrif os oes arnoch chi angen gwneud cyfraniad
- Mae arnoch chi angen y cerdyn i greu cyfrif bancio ar-lein ac i fancio dros y ffôn
- Mae rhai sefydliadau yn derbyn taliad cerdyn, er enghraifft i brynu yswiriant atebolrwydd cyflogwyr neu i dalu asiantaeth ofal fawr
- Cofiwch gadw'r cerdyn yn saff pan nad ydych chi'n ei ddefnyddio

### Be' ydi'r manteision?

- Dim angen agor cyfrif banc ar wahân
- Ffordd ddiogel a hawdd i dalu a rheoli eich taliadau
- Haws a chyflymach na mynd i gangen neu aros i sieciau glirio

### **Beth yw'r manteision i'r Cyngor?**

- Mynediad at gyfriflenni ar-lein, sy'n golygu llai o waith papur i'w wirio a'i gadw
- Gallu gwneud taliadau brys os oes angen
- Gwybodaeth amser real

### **Beth fydd yn digwydd nesaf?**

Ar ôl i ni greu'ch cyfrif, bydd eich cerdyn yn cael ei anfon drwy'r post gan EML (Prepaid Financial Services gynt).

Pan fyddwch chi'n derbyn manylion eich cyfrif, os hoffech, gallwch greu cyfrif ar-lein drwy fynd i: [www.prepaidfinancialservices.com/flintshire/login.aspx](http://www.prepaidfinancialservices.com/flintshire/login.aspx)

Yn eich **cyfrif ar-lein** byddwch yn gallu gweld eich cyfriflenni, gwneud taliadau banc / trosglwyddiadau, trefnu archebion sefydlog ac ychwanegu at eich cyfrif.

Fel arall, mae yna wasanaeth bancio dros y ffôn ar gael ddydd Llun i ddydd Gwener o 8am tan 9pm.

**Bancio dros y ffôn a gwasanaethau i gwsmeriaid: 020 3633 1319**

Fe allwch chi hefyd gysylltu â'r Ymateb Llais Rhyngweithiol (IVR) 24 awr y dydd i wirio eich PIN a'ch balans neu i roi gwybod am gerdyn wedi'i ddwyn neu ar goll:

020 3468 4112 neu

020 3327 1991 neu

020 7183 2248

**Mae'n rhaid i chi actifadu eich cyfrif naill ai drwy agor cyfrif bancio ar-lein neu ffonio un o'r rhifau IVR uchod – does arnoch chi ond angen gwneud hyn unwaith.**

### **Manylion cyswllt**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn mae croeso i chi gysylltu â ni:

#### **Gemma Wellstead**

Swyddog Cymorth Ariannol Taliadau Uniongyrchol

Rhif ffôn: 01352 701417

E-bost: [gemma.wellstead@flintshire.gov.uk](mailto:gemma.wellstead@flintshire.gov.uk)

#### **Mark Cooper**

Rheolwr y Tîm Taliadau Uniongyrchol

Rhif ffôn: 01352 701101

E-bost: [Mark.Cooper@flintshire.gov.uk](mailto:Mark.Cooper@flintshire.gov.uk)

## Y Tîm Aseidiadau Ariannol a Chodi Tâl

Rhif ffôn: 01352 701319

E-bost: [direct.payments.flintshire@flintshire.gov.uk](mailto:direct.payments.flintshire@flintshire.gov.uk)

## EML / Prepaid Financial Services

Bancio dros y ffôn a gwasanaethau i gwsmeriaid: 020 3633 1319

Bancio dros y ffôn awtomatig (IVR) i wirio'ch PIN a'ch balans ac i roi gwybod am gerdyn ar goll neu wedi'i ddwyn:

020 3468 4112 neu

020 3327 1991 neu

020 7183 2248

E-bost: [flintshire@prepaidfinancialservices.com](mailto:flintshire@prepaidfinancialservices.com)

Gwefan: [www.prepaidfinancialservices.com/en/](http://www.prepaidfinancialservices.com/en/)

## Cwestiynau Cyffredin

### Oes angen talu am y cyfrif? Beth ydi'r ffioedd?

Nac oes, bydd Cyngor Sir y Fflint yn cwrdd â chostau'r cyfrif. Efallai y bydd tâl yn cael ei godi arnoch chi os ydych chi'n colli'ch cerdyn gan fod cost ynghlwm wrth gyhoeddi un arall i chi. Cofiwch gadw eich cerdyn yn saff.

Mae sefydlu'r cyfrif a'r cerdyn cyntaf yn rhad ac am ddim i chi.

Mae cerdyn newydd yn costio £4.00.

### Rydw i wedi cael fy asesu i wneud cyfraniad, sut ydw i'n gwneud hynny?

Gallwch wneud trosglwyddiad banc neu sefydlu archeb sefydlog o'ch cyfrif personol i'ch cyfrif taliadau uniongyrchol yn defnyddio'r rhif cyfrif a'r cod didoli ar flaen eich cerdyn. Fe allwch chi hefyd ychwanegu at eich cyfrif yn defnyddio cerdyn debyd ar eich cyfrif ar-lein neu yn Swyddfa'r Post.

### Sut ydw i'n talu fy yswiriant?

Gallwch adnewyddu neu dalu am yswiriant mewn tair ffordd:

1. Defnyddio'r system fancio ar-lein neu dros y ffôn i dalu am yr yswiriant drwy drosglwyddiad banc
2. Ffonio'r yswiriwr a thalu dros y ffôn yn defnyddio'ch cerdyn credyd
3. Gofyn i'ch cwmni yswiriant osod debyd uniongyrchol o'ch cyfrif newydd

## Beth sy'n digwydd os ydw i'n symud i fyw neu os yw fy amgylchiadau yn newid?

Fe ddylech chi roi gwybod i Gyngor Sir y Fflint.

## Sut ydw i'n creu cyfrif bancio ar-lein?

Ewch i: <https://prepaidfinancialservices.com/en/>  
O'r gwymplen "Select your Council/NHS" dewiswch "Flintshire County Council" a chliciwch ar 'log in'.

Fel arall ewch i dudalen fewngofnodi Sir y Fflint yma:  
<https://clients.prepaidfinancialservices.com/flintshire/login.aspx>

Er mwyn bancio ar-lein bydd arnoch chi angen enw defnyddiwr unigryw a chyfrinair. I wneud hyn dewiswch 'I do not have a username/password'.

Bydd y sgrin nesaf yn gofyn am eich rhif cerdyn 16 digid, teipiwch hwnnw a chliciwch ar "**Submit**". *Os nad ydych chi wedi derbyn eich cerdyn eto, ffoniwch y cyfleuster bancio ar-lein ar 020 3633 1319 i wneud taliadau tra bod eich cerdyn yn cyrraedd.*

**Register User**

Card Number \*

Submit

[Return to login](#)

Bydd arnoch chi wedyn angen teipio'ch dyddiad geni fel sydd wedi'i gofrestru ar eich cyfrif.

**Register User**

Card Number \*


DOB \*

Day ▼ Month ▼ Year ▼

Submit

[Return to login](#)

Unwaith mae'r data wedi'i wirio yn erbyn eich cyfrif, bydd gofyn i chi nodi enw defnyddiwr, cyfrinair a dewis cwestiwn ac ateb diogelwch ar gyfer y cyfrif.



**Register User**

Username \*

Confirm username \*

Password \*

Confirm password \*

Security Question \*

Select ▼

Security Answer \*

Submit

## Adborth

Rydym ni wedi ymrwymo i weithio efo chi i wneud y broses o reoli eich taliad uniongyrchol mor syml â phosibl.

Gadewch i ni wybod sut mae'r system newydd hon yn gweithio i chi. Byddwn yn trin eich sylwadau yn gyfrinachol ac yn eu defnyddio i wella Cynllun Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint.

Rhif ffôn: 01352 701101

E-bost: [Mark.Cooper@flintshire.gov.uk](mailto:Mark.Cooper@flintshire.gov.uk)